**EPT-11-02 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 19 Mehefin 2002 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 4:40 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| (yn dirprwyo dros Karen Sinclair) | |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Geraint Davies | Rhondda |
| (yn dirprwyo dros Brian Hancock) | |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr yr Adran Drafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Bob Macey (eitem 2) | Pennaeth Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| Denzil Jones (eitemau 2 a 3) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| June Milligan (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Nicola Donlon (eitem 4) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Robin Shaw (eitem 5) | Y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth |

***Cyrff Allanol:***

| | |
|---|---|
| Julia Korn (eitem 4) | Hyrwyddwr LBAP dros Gymru, Grwp Bioamrywiaeth Cymru |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol**

0. 1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i'r cyfarfod a diolchodd i Tom Middlehurst am ymgymryd â dyletswyddau'r Cadeirydd yn ei absenoldeb. Cofnododd Tom Middlehurst ei ddiolch i'r Aelodau a'r Ysgrifenyddiaeth am eu cymorth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd dros dro. Bellach byddai Richard Edwards yn ailymgymryd â'i rôl fel un o enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor.

0.2 Cytunodd y Pwyllgor i'r newidiadau canlynol i'w raglen waith:

- 11 Gorffennaf – gohirio'r sesiwn ar opsiynau gwaredu gwastraff tan dymor yr Hydref, gan nad oedd y siaradwr ar gael;

- 17 Gorffennaf – cynnwys eitem fer ar ymateb i lythyr oddi wrth Bwyllgor Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol y Cyngor Nordig yn ceisio cefnogaeth i'w alwad am ostwng yr allyriannau o waith prosesu niwclear Sellafield.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Brian Hancock, yr oedd Geraint Davies yn dirprwyo drosto, a Karen Sinclair, yr oedd Rosemary Butler yn dirprwyo drosti.

1.2 Datganodd Geraint Davies fuddiant fel Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Datganodd Val Lloyd fuddiant fel Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-11-02 (p 1)

1. Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r pwyllgor am y materion canlynol:

- Roedd wedi cwrdd â Chymdeithas yr Iaith Gymraeg ar 18 Mehefin i drafod materion yn ymwneud â'i Phortffolio a byddai'n rhoi adroddiad llawn i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

- Yn Gall gyda Gwastraff – lansiwyd y strategaeth wastraff ar 14 Mehefin. Cofnododd y Gweinidog ei diolch i'r swyddogion ac i bartneriaid y Cynulliad Cenedlaethol am eu holl waith.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'r Panel Cadeiryddion, yn dilyn cyfarfod cyntaf y grwp cyd-drefnu trawsbleidiol anffurfiol ar ddatblygu cynaliadwy, yn ystyried mecanweithiau i sefydlu datblygu cynaliadwy fel ystyriaeth brif ffrwd ar agendâu'r pwyllgorau pwnc yn ei gyfarfod nesaf. Byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

2.3 Ymdriniwyd â'r pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

*Cefn Gwlad*

- Seminarau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – ffocws y seminarau ar y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar ystyriaethau ymarferol rhoi darpariaethau'r Ddeddf ar waith;

*Diogelu'r Amgylchedd*

- Baneri Glas – canmoliaeth am i'r nifer uchaf erioed o draethau Cymru dderbyn y Faner Las;

- Gwastraff – yr angen i fynd i'r afael â chael gwerth o wastraff, fel y gallai ailddefnyddio ac ailgylchu ddod yn fwy deniadol yn fasnachol na chael ynni o wastraff (e.e. llosgi). Cydnabuwyd y byddai yna rôl fechan i gladdu sbwriel o hyd, a gâi ei rheoli drwy

drwyddedau i awdurdodau lleol. Dylid rhoi rhagor o bwysau ar gwmnïau i gwtogi ar wastraff pacio, ac mae Rheoliadau Gwastraff Pacio yr UE yn help i fynd i'r afael â hyn;

*Cynllunio*

- Cynllunio gwastraff – roedd y tri rhanbarth (y gogledd, y de a'r gorllewin) wedi cael eu diffinio mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau cynllunio lleol;

- Cynllunio mwynau – y cwestiwn ynglyn â dosbarthu'r dreth agregau yn deg, gan nad yw'r cyllid a ddosbarthir yn cyfateb i'r cyllid a gasglir yng Nghymru;

- Agregau morol – pryder ynglyn ag erydu arfordir de-ddwyrain Cymru ac allforio tywod i'w ddefnyddio y tu allan i Gymru. Roedd copi o grynodeb gweithredol y prosiect ymchwil ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol;

- Ynni adnewyddadwy – yr angen i sicrhau nad oedd ystyriaethau cynllunio yn arafu'r manteision economaidd sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy. Byddai'r Gweinidog yn ymchwilio i gais am ddarparu data oddi ar system Windbase Ystadau'r Goron i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar gyfer ei adolygiad ynni.

*Trafnidiaeth*

- Maes awyr ar gyfer Gwastadeddau Afon Hafren – ymholiadau i gynigion am faes awyr rhyngwladol. Câi'r Pwyllgor y cyfle i gynnig ei farn pan fyddai'r ymchwil i ddyfodol hedfan, sydd wedi'i noddi gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori. Byddai yna adroddiadau ar wahân ar Gymru, yr Alban a Rhanbarthau Lloegr.

**Eitem 3: Adolygiad Polisi o Drafnidiaeth Gyhoeddus: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-11-02 (p 2)

3.1 Rhoddodd y Gweinidog adroddiad ar sut yr oedd pethau'n mynd o ran gweithredu argymhellion adolygiad polisi'r Pwyllgor o drafnidiaeth gyhoeddus a cheisiodd farn y Pwyllgor ar y trefniadau a amlinellwyd yn y papur.

3.2 Cytunai'r Pwyllgor y dylai'r consortia rhanbarthol gael eu cryfhau yn y tymor byr, a chefnogodd y cynnig i gynyddu swyddogaeth trafnidiaeth y Cynulliad Cenedlaethol a cheisio pwer deddfwriaethol sylfaenol i sefydlu Awdurdod/Gweithrediaeth Cludiant Teithwyr, fel opsiwn. Cytunai'r Pwyllgor nad oedd Awdurdod Cludiant Teithwyr i Gymru *ar ffurf y model trefol presennol* yn briodol; ond cafwyd amrywiaeth barn ynglyn â'r trefniadau y byddid yn eu ffafrio yn y tymor hwy a chanolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- ddadleuon o blaid corff i Gymru-gyfan, a allai fod ar ffurf Partneriaeth Cludiant Cyhoeddus i Gymru, wedi'i seilio ar gonsortia rhanbarthol;

- dadleuon o blaid parhau i wneud penderfyniadau yn lleol a'r angen am gyd-drefnu ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, yn enwedig yng Ngogledd Cymru;

- sut mae sicrhau bod consortia rhanbarthol yn gwireddu gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer cludiant cyhoeddus, o gofio ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyllid refeniw sydd heb ei neilltuo i'r awdurdodau lleol;

- natur y pwerau trafnidiaeth yn Neddf Llundain Fwyaf 1999, a allai alluogi'r Cynulliad i fynnu bod cynlluniau trafnidiaeth lleol i gael eu gweithredu yn unol â'r strategaeth genedlaethol;

- yr angen i gynyddu'r buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn sylweddol, yn enwedig y rheilffyrdd.

3.3 Byddai'r Gweinidog yn cymryd sylwadau'r Aelodau i ystyriaeth wrth lunio ei chynigion terfynol, a gâi eu cyflwyno i'r cyfarfod llawn ar 2 Gorffennaf.

**Eitem 4: Adolygiad o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac ymgynghori** - EPT-11-02 (p 3) ac EPT-11-02 (p 4)

4.1 Ceisiodd y Cadeirydd farn y Pwyllgor am y trefniadau ymgynghori arfaethedig fel rhan o'i adolygiad o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPs).

4.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor y themâu ymgynghori a'r cyrff i ymgynghori â nhw, yn amodol ar ychwanegu'r cyrff canlynol:

- Y Cynghrair Cefn Gwlad
- Dwr Cymru Welsh Water
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Cymdeithas y Meistri Cwn Hela
- Merched y Wawr
- Sefydliad y Menywod

4.3 Byddai'r ymgynghoriad yn para rhwng 1 Gorffennaf a 20 Medi. Câi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei ystyried yng nghyfarfod cyntaf tymor yr Hydref, pryd y gallai'r Pwyllgor benderfynu pa unigolion a chyrff i'w gwahodd i gyflwyno tystiolaeth yn bersonol.

**Eitem 5: Trafod blaenoriaethau'r gyllideb** - EPT-11-02 (p 5)

5.1 Ceisiodd y Gweinidog farn yr Aelodau ar y blaenoriaethau a awgrymwyd ar gyfer cyllidebau 2003-04 hyd 2005-06 fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb.

5.2 Cefnogodd y Pwyllgor flaenoriaethau'r Gweinidog, sef buddsoddi mewn system drafnidiaeth integredig, strategaeth wastraff, cynllun atal llifogydd a gwarchod yr arfordir, bioamrywiaeth, rhagor o weithgareddau datblygu cynaliadwy, a datblygu'r fenter ddylunio. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am i adnoddau digonol gael eu darparu ar gyfer y meysydd canlynol:

- monitro'r dangosyddion datblygu cynaliadwy;
- rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig;
- gweithredu blaenraglen y cefnffyrdd – gofynnwyd i'r Gweinidog ddarparu'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer cost bras y cynlluniau yng nghamau 1 a 2 blaenraglen y Cefnffyrdd.

5.3 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog yn ffurfiol yn nodi barn y Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 29 Mai 2002** - EPT-10-02 (min)

6.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mai.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 3 Gorffennaf 2002 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2002**